

## Cymerwr Cofnodion Bwrdd yr Ymddiriedolaeth - Hysbyseb

Oddeutu 45-50 awr p.a.; Cytundeb; £10/yr awr.

Caiff gweithrediadau a datblygiad strategol Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru eu harwain a'u cefnogi gan Fwrdd o Ymddiriedolwyr. Mewn ymateb i dwf parhaus yr Ardd, rydyn ni nawr yn recriwtio **Cymerwr Cofnodion Bwrdd**, a fydd yn cymryd perchnogaeth lawn am gyfrifoldebau cymryd cofnodion yng nghyfarfodydd yr Ymddiriedolwyr.

Mae gan y Bwrdd ystod o wahanol gefndiroedd a phrofiad; fodd bynnag, maent oll yn unedig wrth gefnogi'r Ardd a'i gweld yn datblygu fel canolfan ragoriaeth o ran cadwraeth ac ar y blaen fel cyrchfan i ymwelwyr yng Nghymru. Rôl yw hon sy'n rhoi cyfle cyffrous a hyblyg i rywun sy'n rhannu'r angerdd yma i ymuno â'r tîm.

Am fwy o fanylion am y swydd yma a sut mae gwneud cais gwelwch:

Mae ceisiadau'n cau am 11yh ar **ddydd Sul 11eg o Dachwedd 2018**.

## Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru, Cymerwr Cofnodion Bwrdd

### Disgrifiad Swydd

**Yn gyfrifol i:** Cadeirydd y Bwrdd/Cyfarwyddwr yr Ardd

**Amser sydd ei angen:** Oddeutu 45-50 awr y flwyddyn (fyny hyd at chwe chyfarfod Bwrdd, hefyd un Cyfarfod Blynyddol)

**Lleoliad:** Cynhelir y cyfarfodydd fel arfer yn yr Ardd Fotaneg Genedlaethol, Llanarthne.

**Amser/Dyddiadau:** Cynhelir y cyfarfodydd Bwrdd fel arfer am 12 canol dydd, ar ddydd Gwener olaf y mis (fel lleiafrif o - Chwefror, Ebrill, Gorffennaf, Medi, Tachwedd). Cynhelir un cyfarfod bwrdd (Gorffennaf) fel arfer ar ddydd Sadwrn. Mae'r Cyfarfod Blynyddol fel arfer yn cael ei gynnal ar yr un diwrnod, yn syth fel arfer, wedi cyfarfod Bwrdd Tachwedd. Dylai'r daliwr swydd fod yn barod i weithio tu allan i oriau gwaith arferol, os oes angen.

**Sail Cytundeb:** Tymor Penodol (2 Flwyddyn)

**Cyflog:** £450 honorariwm

Wedi ei sefydlu ym mis Mai 2000 fel un o 3 phrosiect mileniwm yng Nghymru a gefnogir gan Gomisiwn y Mileniwm, Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru (yr Ardd) yw un o atyniadau ymwelwyr mwyaf arwyddocaol y genedl o werth gwyddonol ac addysgol eithriadol. Yn gartref i'r Tŷ Gwydr Mawr eiconig ac yn dathlu fel aelod allweddol o gymuned ryngwladol gerddi botanegol, ar hyn o bryd mae'n cyflogi

oddeutu 75 o weithwyr FTE ac mae'n elwa o dros 22,000 awr o fewnbwn gwirfoddol bob blwyddyn. Gan gynhyrchu incwm oddeutu £3M yn flynyddol, mae wedi croesawu mwy na 2.2m o ymwelwyr ers agor ac yn awr yn denu tua 160,000 o ymwelwyr y flwyddyn. Cydnabyddir fel ased cenedlaethol yn Strategaeth Wyddoniaeth Cymru a chyfrannwr hanfodol i economi'r rhanbarth, mae'r Ardd yn gweithio mewn partneriaeth â dros 70 o sefydliadau yng Nghymru ac ar draws y byd; sy'n cwmpasu garddwriaeth, addysg, cynaladwyedd, cadwraeth, gwyddoniaeth ac ymchwil, y celfyddydau a diwylliant Cymreig ac mae'n ymfalchïo yn Nhywysog Cymru fel ei Noddwr a Syr Gareth Edwards fel ei Llywydd Anrhydeddus.

Mae'r Ardd yn ymroddedig i ymchwil a chadwraeth bioamrywiaeth, cynaliadwyedd, dysgu gydol oes a mwynhad yr ymwelydd.

### Swyddogaeth y Swydd:

1. Presenoldeb ym mhob cyfarfod Bwrdd a Phwyllgor chwarterol,
2. Cymryd cofnodion, nodiadau a chmau gweithredu yn ystod cyfarfodydd
3. Paratoi amserol holl gofnodion a chofnodion gweithredu ar gyfer cyfarfodydd y Bwrdd a'r Cyfarfod Blynyddol

### Meini Prawf y Rôl

#### Profiad Perthnasol:

- Profiad o bwyllgorau cefnogi, Byrddau neu strwythur llywodraethu tebyg arall
- Profiad o baratoi cyfathrebu ysgrifenedig cryno a chllir

#### Sgiliau a Galluoedd:

- Cymhwyster rheoli ysgrifenyddol neu weinyddol (dymunol)
- Hyder wrth gymryd cofnodion cywir mewn cyfarfodydd
- Sgiliau trefnu rhagorol; y gallu i weithio i derfynau amser
- Sgiliau cyfathrebu rhagorol (ar lafar ac yn ysgrifenedig)
- Sgiliau TG gyda hyfedredd yn Microsoft Word ac Outlook
- Mae'r gallu i gyfathrebu yn Gymraeg yn ddymunol

#### Rhinweddau Personol:

- Agwedd gadarnhaol gadarn a gallu i ddod o hyd i atebion hyblyg
- Hawdd mynd ato, dull empathetig, yn addasadwy i ofynion newidiol
- Y gallu i ddatblygu perthnasau gwaith da
- Dealltwriaeth o'r angen am gyfrinachedd

### Sut mae Ceisio:

Am ymholiadau anffurfiol o flaen llaw eich cais, croeso i chi gysylltu â Huw Francis (Cyfarwyddwr yr Ardd): 01558 667106; [huw.francis@gardenofwales.org.uk](mailto:huw.francis@gardenofwales.org.uk). E-bostiwch eich ceisiadau at [emma.grey@gardenofwales.org.uk](mailto:emma.grey@gardenofwales.org.uk) erbyn 11yh ar dydd Sul 11eg o Dachwedd 2018, gan gynnwys eich CV a llythyr eglurhaol yn manylu sut yr ydych yn credu y bydd y rôl yma'n addas ar eich cyfer.